

Gweminar Cymraeg 2050 - Newidiadau i Gymwysterau Cymraeg

Trawsgrifiad Cymraeg

Prynhawn da a chroeso i chi. Dw i'n falch i weld fod sut gymaint ohonoch chi wedi cymryd y cyfle i ymuno gyda ni brynhawn yma.

Ein gobaith erbyn diwedd y sesiwn yw i chi gael gwell dealltwriaeth o'r cymwysterau newydd yn y Gymraeg fydd yn dod fewn i gefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

Gan gynnwys:

- peth o'r cefndir a'r rhesymeg sy'n eistedd y tu cefn i'r newidiadau;
- beth fydd y cymwysterau newydd yn ei olygu i ddysgwyr;
- a'r camau nesaf y byddwn ni'n eu cymryd i gydweithio'n agos gydag athrawon, dysgwyr, arbenigwyr ac eraill er mwyn cyd-greu y cynnwys a'r asesiadau ar gyfer y cymwysterau newydd hyn.

Rydyn ni hefyd yn awyddus bod hwn yn sesiwn yma'n un rhyngweithiol. Fe wnawn ni'n gorau i gadw'r cyflwyniad agoriadol mor fyr ag y gallwn ni er mwyn sicrhau cymaint o gyfle â phosib ar gyfer cwestiynau a thrafodaeth wedi hynny.

Mae pob croeso i chi ddefnyddio'r 'chat' er mwyn codi cwestiynau neu unrhyw bwyntiau yr hoffech chi drafod yn Gymraeg neu Saesneg. Fe wnawn ni drïo eu hateb nhw wrth i ni fynd yn ein blaenau yn y 'chat' ond hefyd byddwn ni hefyd yn ateb rhai o'r cwestiynau o ddiddordeb ar ôl i ni orffen gyda'r cyflwyniad.

Gobeithio fod hynny'n glir ac mae dyna beth ydych chi'n ei ddisgwyl ac eich bod yn y weminar gywir. O'r gorau, bant â ni felly.

Annabel, gawn ni'r sleid nesaf os gweli di'n dda?

Cyn i ni gyflwyno'r tri chymhwyster Cymraeg newydd, dw i am ddweud gair neu ddau er mwyn rhoi y newidiadau hyn mewn cyd-destun.

Ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi bod Cwricwlwm newydd i Gymru ar ei ffordd, sy'n anelu at roi mwy o gyfleoedd i ddysgwyr lwyddo drwy addysg eang a chytbwys, roedden ni'n gwybod bod yn rhaid i ni ddechrau sgwrs ehangach ar sut olwg ddylai fod ar gymwysterau ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed yn y dyfodol.

Cymwys ar gyfer y dyfodol yw'r enw rydyn ni wedi ei roi ar raglen flaengar a chyfranogol o waith fydd yn rhoi cyfle pwysig i athrawon ac eraill ledled Cymru i gael

cymryd rhan yn uniongyrchol yn y gwaith o siapio cyfres newydd sbon ac arloesol o gymwysterau i gyd fynd gyda'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Ac mae'r gwaith hwnnw wedi bod yn mynd rhagddo ers sawl blwyddyn bellach.

Yn ôl yn yr hydref, ac yn dilyn ymgynghoriad â dros 1,500 o ddysgwyr, rhieni, athrawon, darlithwyr, a chyflogwyr, fe wnaethon ni gadarnhau ein gweledigaeth ar gyfer cymwysterau'r dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys datgan yr ystod o bynciau TGAU fydd yn cael eu hailwampio ar gyfer y cwricwlwm newydd. Byddwn ni'n gwneud y gwaith diwygio hyn ar y cyd gydag eraill drwy'r dull cyfranogol, cydadeiladol roeddwn i'n sôn amdano.

Fodd bynnag, yn yr hydref, fe wnaethon ni ddal yn ôl ein penderfyniad ni ar ba gymwysterau Cymraeg fydd eu hangen, er mwyn i ni allu ystyried beth fyddai'r cam gorau i'w gymryd yng ngoleuni gwell dealltwriaeth o fwriadau polisi'r Llywodraeth ar yr iaith Gymraeg.

Felly fe wnaethon ni gymryd y cyfle, rhyw seibiant byr, i fynd ati ailwerthuso'r opsiynau posib, yng ngoleuni arweiniad polisi gan y Llywodraeth, ac i gynnal cyfres ddwys o drafodaethau pellach gyda rhanddeiliaid.

Yn dilyn y gwaith hwnnw, dyma ni'n cadarnhau fis diwethaf ein penderfyniadau ni ar gyfer yr ystod o gymwysterau Cymraeg a fydd ar gael i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2025.

Rydyn ni'n hyderus y bydd y cymwysterau Cymraeg newydd hyn yn rhoi cyfle teg a chyfartal i ddysgwyr gyflawni yn y Gymraeg, dim ots pa fath o ysgol maen nhw'n ei fynychu.

Rydyn ni'n awyddus i weld pob dysgwr yn datblygu eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus o fewn continwmm dysgu, sy'n cynnwys dysgwyr ag ychydig neu ddim profiad o'r iaith hyd at y rhai sydd â hyfedredd amlwg yn yr iaith.

Mae cymwysterau Cymraeg ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg eisoes wedi cael eu hatgyfnerthu, gyda chymhwyster TGAU newydd fwy heriol a pherthnasol wedi ei gyflwyno yn 2017.

Bydd y cymwysterau newydd hyn rydyn ni'n eu trafod heddiw yn cymryd cam sylweddol ymhellach yn y cyfeiriad cywir wrth i ni ymdrechu i greu cenedl gwbl ddwyieithog.

Rydyn ni'n glir y bydd angen i ni barhau i addasu a newid y cymwysterau hyn dros y degawd nesaf, wrth i ni weithio â phartneriaid a rhanddeiliaid eraill i wireddu amcanion strategaeth polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Cymraeg 2050'.

Yn y pen draw, ein nod fydd i gyrraedd y pwynt pan allwn ni gynnig un cymhwyster cyfun i bob dysgwr yng Nghymru yn yr iaith Gymraeg. Dydyn ni ddim yno eto, ond fel roeddwn i'n sôn, mae hon yn garreg filltir o ran datgan y cam nesaf ar y siwrnai honno.

O'r gorau, dyna fwy na digon o ran cefndir oddi wrtha i. Felly awn ni ymlaen i drafod y tri chymhwyster newydd hyn rydyn ni wedi datgan bydd eu hangen i gyd-fynd gyda'r cwricwlwm newydd. Felly wna'i basio ymlaen at Catrin a fydd yn esbonio mwy am bob un ohonyn nhw yn eu tro, yn ogystal ag egluro sut fyddwn ni'n mynd ati i weithio gydag eraill i ddatblygu'r manylion o ran eu dilyniad a'u hasesiad nhw.

Felly Catrin, draw atat ti.

Diolch Emyr a phrynhawn da i bawb.

Annabel, elli di symud ymlaen at y sleid nesaf os gweli di'n dda?

O ran ein penderfyniad ni, mi fyddwn ni'n cyfuno iaith a llenyddiaeth ac yn creu un cymhwyster TGAU integredig newydd Cymraeg ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog.

Mae cyfuno iaith a llên yn rhoi'r cyfle i fwy o ddysgwyr astudio llenyddiaeth, achos mae'r niferoedd sy'n eu hastudio wedi bod yn gostwng dros y blynyddoedd diwethaf. Felly achos ei bod hi'n ymddangos nad yw rhai dysgwyr yn astudio llenyddiaeth y tu hwnt i 14 oed, rydyn ni'n teimlo bod cyfuno iaith a llenyddiaeth yn mynd i atal hynny rhag digwydd.

Mae cyfuno iaith a llên hefyd yn helpu efo dilyniant i Safon Uwch gan fod Cymraeg Safon Uwch eisoes yn eu cyfuno nhw.

Rydyn ni hefyd yn teimlo bod cyfuno yn ei gwneud hi'n haws creu cysylltiadau rhwng y ddau. Mae athrawon wedi bod yn dweud wrthyn ni bod gorgyffwrdd rhwng y cyrsiau persennol a bod hynny yn annog dysgwyr ac athrawon i wneud cysylltiadau ar eu traws. Ac wrth gwrs, ma llenyddiaeth yn rhoi cyd-destun i iaith. Felly mae'r penderfyniad yn helpu i wneud y ddwy elfen yn fwy diddordol i'w hastudio ac i'w hastudio hefyd.

Ystyriaeth arall wrth gwrs ydy bod cyfuno iaith a llenyddiaeth yn galluogi dull mwy cyfannol o asesu iaith a mi fyddai hynny'n gallu lleihau'r baich asesu gan ganiatáu mwy o amser wedyn ar gyfer yr addysgu a'r dysgu.

Bydd cyfuno hefyd yn rhoi rhyddid i ddysgwyr ac i ysgolion ddewis cymysgedd o gymwysterau sy'n adlewyrchu ehangder a chydbwysedd y cwricwlwm newydd. Fel rydyn ni'n gwybod, rydyn ni'n integreiddio pynciau eraill hefyd fel Saesneg,

mathemateg a gwyddoniaeth, felly bydd llai o gymwysterau ar wahân yn y pynciau yna yn rhoi mwy o le i ddysgwyr gael profiadau ehangach ar draws y cwricwlwm cyfan.

Dw i newydd sôn yn fan yno am Saesneg, ac wrth gwrs rydyn i eisioes wedi gwneud y penderfyniad i gyfuno iaith a llên ar gyfer Saesneg. Mae'n werth cadarnhau y bydd y cymwysterau TGAU Cymraeg a Saesneg newydd yr un maint a her, a rydyn ni'n teimlo y bydd hyn cefnogi dull mwy cydlynol o ddysgu iaith mewn ysgolion.

Felly dyna ydy'r penderfyniad cyntaf. Symud ymlaen i'r ail benderfyniad rŵan.

Annabel – os oes modd symud ymlaen at y sleid nesaf os gwelwch yn dda. Ac i'r nesaf os gwelwch yn dda – i'r ail benderfyniad.

Mi fyddwn ni'n rhoi'r gorau i'r TGAU Cymraeg Ail Iaith presennol, ac mae'r penderfyniad i wneud hynny'n cefnogi polisi Llywodraeth Cymru o ran cyflwyno un continwmm o addysgu a dysgu Cymraeg.

Mi fydd yna gymhwyster TGAU newydd yn cael ei greu ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.

Rhaid cofio bod cymwysterau Cymraeg ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wedi datblygu dipyn dros y pum mlynedd diwethaf.

Yn 2017, fe wnaeth y cymhwyster TGAU presennol ddisodli y cyrsiau llawn a byr blaenorol – sef y TGAU Cymraeg Ail Iaith a'r TGAU Cymraeg Cymhwysol. Gwnaethon ni ddweud yr adeg hynny y byddai TGAU Cymraeg Ail Iaith yn cael ei adolygu eto i adlewyrchu'r cwricwlwm newydd.

A dyma lle rydyn ni wedi cyrraedd rŵan. Felly mi fydd y TGAU newydd yn seiliedig ar y disgwyliadau sydd yn y cwricwlwm, ac mi fydd yn adeiladu ar y cynnydd sydd - ac a fydd erbyn hynny - wedi ei wneud efo'r cymhwyster presennol. Mi fydd y cymhwyster newydd yn parhau i ddatblygu sgiliau gwranddo a siarad dysgwyr fel y eu bod nhw'n gallu cyfathrebu'n ddigymell a'n hyderus.

Dydyn ni ddim yn gwybod beth fydd ei enw eto - dyma rywbeth y byddwn yn ei drafod gydag athrawon a dysgwyr wrth i ni fynd ati i'w greu.

Felly dyna ydy ein hail benderfyniad.

Ac wedyn symud ymlaen i'r trydydd penderfyniad.

Annabel, os medri di symud y sleid ymlaen os gweli di'n dda.

Rydyn ni hefyd yn cyflwyno cymhwyster newydd, ychwanegol ar gyfer y disgyblion hynny mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg sy'n barod i symud ymlaen ymhellach ac yn gyflymach, o ran eu sgiliau Cymraeg, ar hyd y continwwm.

Fydd y cymhwyster newydd, ychwanegol yma ddim yr un maint â chymhwyster TGAU, mi fydd o'n llai, a'i bwrpas fydd cefnogi dysgwyr fwyfwy gyda'u sgiliau llefaredd, fel eu bod yn gallu sgwrsio'n fwy hyderus a digymell o fewn a thu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Y bwriad ydy fod y cymhwyster newydd, ychwanegol hwn yn cael ei gynllunio i adeiladu ar ac atgyfnerthu'r hyn y bydd y dysgwyr yn ei wneud fel rhan o'r cwrs TGAU er mwyn rhoi mwy o hyder a mwynhad i ddysgwyr wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Rydyn ni'n rhagweld y byddai'r cymhwyster newydd yma yn gallu cael ei addysgu ochr yn ochr â'r cymhwyster TGAU. Felly mi fydd o yno i'r disgyblion hynny sy'n symud ymlaen ymhellach ac yn gyflymach, o ran eu sgiliau Cymraeg, ar hyd y continwwm.

Athrawon sy'n adnabod eu dysgwyr orau, wrth gwrs, felly mi fyddan nhw'n gallu defnyddio'r cymhwyster hwnnw i ymestyn y rheiny sy'n gwneud cynnydd da.

Rydyn ni'n ymwybodol bod rhai disgyblion yn cael eu capio ar hyn o bryd – a does dim darpariaeth ychwanegol yn y Gymraeg iddyn nhw, felly rydyn ni'n gweld cyfle yma i gyflwyno cymhwyster sy'n galluogi digyblion i wneud rhywbeth ychwanegol a felly gwneud y cynnydd gorau posibl ac, wrth gwrs, cael cydnabyddiaeth am hynny.

A rydyn ni hefyd yn awyddus i wneud yn siŵr y bydd y cymhwyster newydd hwn mor afaelgar â phosib er mwyn rhoi'r her 'na i'r disgyblion o fewn yr un amserlen.

O ran beth mae'r newidiadau hyn yn eu golygu i ddysgwyr yng Nghymru – wrth gwrs mae disgwyl i bob dysgwr ddysgu Cymraeg hyd nes eu bod yn 16, a rydyn ni'n credu y bydd y set newydd yma o gymwysterau Cymraeg yn rhoi cyfle teg a chyfartal i bob un gyflawni yn y Gymraeg, dim ots pa fath o ysgol y maen nhw'n yn ei mynychu.

Rydyn ni eisiau bod pob dysgwr yn gallu defnyddio'r Gymraeg ac mae hyn yn cynnwys dysgwyr ag ychydig neu ddim profiad o'r iaith hyd at y rhai sydd â hyfedredd yn yr iaith. Rydyn ni eisiau gweld dysgwyr yn symud ar hyd y continwwm o ddysgu Cymraeg fel ein bod yn cynhyrchu siaradwyr hyderus, a rydyn ni'n hyderus bod y cynnig hwn yn helpu i ddechrau gwireddu hynny.

Ac fel roedd Emyr yn sôn ar ddechrau'r cyfarfod yma, rydyn ni hefyd yn ymrwymo i barhau i addasu a newid y cymwysterau hyn dros y degawd nesaf, er mwyn cwrdd

â'r nod 'Cymraeg 2050', ond hefyd y nod tymor hwy o gynnig un cymhwyster Cymraeg i bob dysgwr yng Nghymru.

Felly i sôn yn sydyn, dw i'n meddwl bod gennyn ni un sleid arall.

Annabel – os elli di symud ymlaen os gweli di'n dda.

Gwnaethon ni gyhoeddi ein penderfyniad llawn ni ddoe, ac o ran y camau nesaf, rydyn ni eisoes wedi recriwtio athrawon ac ymgynghorwyr i weithio gyda ni i ddechrau cynllunio cynnwys ac asesiadau lefel uchel y cymwysterau newydd yma. Mi fyddan ni cwrdd am y tro cyntaf mewn ychydig dros wythnos, felly rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at hynny.

Mi fydd cyfle wedyn i chi a'r cyhoedd roi adborth i ni am ein cynigion yn ffurfiol yn hydref 2022.

A'r syniad ydy bydd cymwysterau'n barod i'w haddysgu gyntaf yn 2025 a'u hasesu yn gyntaf yn 2027.

Ond os oes gennych chi ddiddordeb bod yn rhan o'r gwaith yma wrth i ni symud ymlaen dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, mae croeso i chi gysylltu efo ni, ac mi fyddan ni'n wir yn falch o'r cyfle i weithio efo chi.

Felly dyna i gyd oedd gen i i'w ddweud, felly fe wna'i drosglwyddo'n ôl at Emyr.

Diolch yn fawr am wrando.